

Cymraeg mewn Ymarfer Proffesiynol 2
Welsh in Professional Practice 2
2025-26



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales


www.athrofa.cymru

BA2 - Darlith 16
Yr Amser Amherffaith
(The imperfect tense)



bethan.griffiths@uwtsd.ac.uk

Allwedd




Ailadrodd




Ymarfer ar lafar
(yn unigol)




Tasg
wrando




Gwaith
pâr



Grŵp o dri



Gwaith grŵp




Amser
canu



Gwaith ar y
byrddau gwyn



Tasg
ysgrifennu



Tasg
ddarllen




Help llaw



Tystiolaeth
i'r Portffolio



Ydych chi'n cofio?



Darllen**ais** i
Darllen**aist** ti
Darllen**odd** e
Darllen**odd** hi
Darllen**on** ni
Darllen**och** chi
Darllen**on** nhw

Bwy**tais** i
Bwy**aist** ti
Bwy**todd** e
Bwy**todd** hi
Bwy**ton** ni
Bwy**och** chi
Bwy**ton** nhw

Gweith**iais** i
Gweith**aist** ti
Gweith**iodd** e
Gweith**iodd** hi
Gweith**ion** ni
Gweith**ioch** chi
Gweith**ion** nhw



Bonyn Rheoliadd *Regular Stems*

- *When a verb ends in a single vowel, you will lose that vowel to find the bôn:*

prynu > **Prynais i**
canu > **Canais i**

golchi > **Golchais i**
bwyta > **Bwytais i**

- *When a verb ends in 'io', we once again lose the final vowel:*

gweithio > **Gweithiais i**
nofio > **Nofiais i**

smwddio > **Smwddiais i**
gwyllo > **Gwyliais i**

- *We always lose a final 'ed' or 'eg' ('eds will roll and 'egs will smash!):*

cerdded > **Cerddais i**
clywed > **Clywais i**

yfed > **Yfais i**
rhedeg > **Rhedais i**

- *With some verbs, we add the bôn to the end of the verb, without changing it at all (many of these end in a consonant):*

darllen > **Darllenais i**
deall > **Deallais i**

edrych > **Edrychais i**
chwarae > **Chwaraeais i**



Bonyn Afreoliadd

*Irregular
Stems*

mwynhau	>	mwyn<u>h</u>eu-
aros	>	ar<u>h</u>os-
cyrraedd	>	cyr<u>h</u>aedd-
dweud	>	dywed- / dwed-
gwrando	>	gwrandaw-
gadael	>	gadaw-
meddwl	>	meddyli-



Terfyniadau

Endings

Person	Terfyniad
1. fi	- ais i
2. ti	- aist ti
3. fe/hi	- odd e/hi
4. ni	- on ni
5. chi	- och chi
6. nhw	- on nhw



Yr Amser Gorffennol Cryno

- The direct object of the verb (often the first word after the ending) takes a soft mutation, e.e.

Darllenais i **l**yfr.

I read a book.

- The direct object does not take a soft mutation if it is followed by a definite masculine or plural noun, e.e.

Darllenaist ti'r llyfr.

You read the book.

Darllenon nhw'r llyfrau.

They read the books.



Gofyn Cwestiynau



Ddarllenaist ti lyfr neithiwr?

Do




Gerddodd e i'r ysgol bore 'ma?

Fwytodd hi frechdan amser cinio?

Brynoch chi fwyd yn y ffreutur?

Naddo



Weithion nhw'n galed heddiw?

Mae treigladau meddal ar ddechrau'r cwestiwn.

There is a soft mutation at the start of the question.



Gofyn Cwestiynau



Ddarllenaist ti lyfr neithiwr?

Do




Gerddodd o i'r ysgol bore 'ma?

Fwytodd hi frechdan amser cinio?

Brynoch chi fwyd yn y ffreutur?

Naddo



Weithion nhw'n galed heddiw?

Mae treigladau meddal ar ddechrau'r cwestiwn.

There is a soft mutation at the start of the question.



Trowch y brawddegau'n gwestiynau:

Change the sentences into questions:



1. Bwytais i ginio yn yr ysgol.
2. Edrychon nhw ar y ffilm ddoe.
3. Codon nhw'n gynnar.
4. Darllenodd hi'r stori yn y dosbarth.
5. Cerddon ni i'r parc.
6. Ymlacion ni yn y tŷ.
7. Bwyton ni gyda ffrindiau.
8. Gwerthoch chi'r gadair.
9. Dysgon nhw'r geiriau.
10. Prynon ni'r coffi.



Atebion!

1. Bwytais i ginio yn yr ysgol.
2. Edrychon nhw ar y ffilm ddoe.
3. Codon nhw'n gynnar.
4. Darllenodd hi'r stori yn y dosbarth.
5. Cerddon ni i'r parc.
6. Ymlacion ni yn y tŷ.
7. Bwyton ni gyda ffrindiau.
8. Gwerthoch chi'r gadair.
9. Dysgon nhw'r geiriau.
10. Prynon ni'r coffi.

1. Fwytais i ginio yn yr ysgol?
2. Edrychon nhw ar y ffilm ddoe?
3. Godon nhw'n gynnar?
4. Ddarllenodd hi'r stori yn y dosbarth?
5. Gerddon ni i'r parc?
6. Ymlacion ni yn y tŷ?
7. Fwyton ni gyda ffrindiau?
8. Werthoch chi'r gadair?
9. Ddysgon nhw'r geiriau?
10. Brynon ni'r coffi?



Y Negyddol

- *Verbs starting with **b, d, g, ll, m, and rh** take a **treigladd meddal**, e.e.*

Ddarllennais i ddim llyfr.

- *Verbs starting with **p, t and c** take a **treigladd llaes**, e.e.*

Cherddon nhw ddim i'r ysgol.

Phrynais i ddim creision.


- *There is never a mutation after **ddim**.*



Tasg Wrando / Ddarllen



Dyma Steve



Neithiwr, **cerddodd** e adre o'r coleg. Cyrhaeddodd e'r tŷ am bump o'r gloch. **Newidiodd** e i ddillad ymarfer corff a gyrrodd e i'r gampfa. Am hanner awr wedi chwech, **gadawodd** e'r gampfa a **gyrrodd** e adre, ond ar y ffordd **arhosodd** e i brynu pysgod a sglodion i swper. **Cyrhaeddodd** e'r tŷ am saith o'r gloch a **bwytdodd** e'r pysgod a sglodion o flaen y teledu. **Mwynheuodd** e'r bwyd yn fawr iawn!





Tasg Wrando / Ddarllen



Dyma Steve

Neithiwr, _____ e adre o'r coleg. Cyrhaeddodd e'r tŷ am bump o'r gloch. _____ e i ddillad ymarfer corff a gyrodd e i'r gampfa. Am hanner awr wedi chwech, _____ e'r gampfa a _____ e adre, ond ar y ffordd _____ e i brynu pysgod a sglodion i swper. _____ e'r tŷ am saith o'r gloch a _____ e'r pysgod a sglodion o flaen y teledu. _____ e'r bwyd yn fawr iawn.



Beth ydy'r dyddiad heddiw?

Dydd Sul
Dydd Llun
Dydd Mawrth
Dydd Mercher
Dydd Iau
Dydd Gwener
Dydd Sadwrn


Ionawr
Chwefror
Mawrth
Ebrill
Mai
Mehefin
Gorffennaf
Awst
Medi
Hydref
Tachwedd
Rhagfyr

1af y cyntaf	2il yr ail	3ydd y trydydd	4ydd y pedwerydd	5ed y pumed	6ed y chweched	7fed y seithfed
8fed yr wythfed	9fed y nawfed	10fed y degfed	11eg yr unfed ar ddeg	12fed y deuddegfed	13eg y trydydd ar ddeg	14eg y pedwerydd ar ddeg
15fed y pymthegfed	16eg yr unfed ar bymtheg	17eg yr ail ar bymtheg	18fed y deunawfed	19eg y pedwerydd ar bymtheg	20fed yr ugeinfed	21ain yr unfed ar hugain
22ain yr ail ar hugain	23ain y trydydd ar hugain	24ain y pedwerydd ar hugain	25ain y pumed ar hugain	26ain y chweched ar hugain	27ain y seithfed ar hugain	28ain yr wythfed ar hugain
29ain y nawfed ar hugain	30ain y degfed ar hugain	31ain yr unfed ar ddeg ar hugain				

Dydd Mawrth, Hydref y nawfed.



Mae hi'n amser cofrestru!



1. Greeting!
2. Feelings.
3. Registration Time (Who is present/absent?)
4. Discuss the date (day/month/date)
5. Discuss the weather (today/yesterday/tomorrow)
6. Discuss where they went (**Es i...** / **Es i ddim...**)
7. Discuss what they did (**Gwnes i...** / **Wnes i ddim...**)
8. Discuss what they had (**Ces i...** / **Ches i ddim...**)
9. Discuss what they did in the past (**Bwytais i...**, **Cherddais i ddim...**)
10. Praise!



Yr Amser Amherffaith

- The imperfect tense, like the present tense, is formed from the verb '**bod**' (*to be*), so an **yn** or '**n**' is usually required to link it to the rest of the sentence, e.e.

Dw i'**n** byw

I live / I am living

Roeddwn i'**n** byw

I lived / I was living

- We use the imperfect tense to refer to things we 'were' doing, that we did often or that were on-going in the past rather than a one-off, specific activity.



Yr Amser Amherffaith

- Yn Gymraeg, we often use the imperfect tense where English uses the past tense, particularly with the verbs **hoffi**, **byw**, **meddwl**, **gwybod**, **adnabod** and **eisiau**:

Roeddwn i'n hoffi...

I liked...

Roeddwn i'n byw...

I lived...

Roeddwn i'n meddwl...

I thought...

Roeddwn i'n gwybod...

I knew (a fact)...

Roeddwn i'n adnabod...

I knew (a person)...

Roeddwn i eisiau...

I wanted...



Yr Amser Amherffaith

- This tense can also mean '*used to*', e.e.

Roeddwn i'n byw yn Llundain.


I used to live in London.

Roedd hi'n canu yn y côr.

She used to sing in the choir.



Yr Amser Amherffaith



Roeddwn i

I was

Roeddet ti

You were

Roedd e

He was

Roedd hi

She was

Roedd Tom

Tom was

Roedd y plant

The children were

Roedden ni

We were

Roeddech chi


You were

Roedden nhw

They were



Yr Amser Amherffaith



Roeddwn i'n chwarae pêl-droed ar yr iard.

I was playing football on the yard.

Roeddet ti'n cerdded i'r ysgol.

You were walking to school.

Roedd e'n gwisgo trowsus du.

He was wearing black trousers.

Roedd hi'n gwneud Mathemateg.

She was doing Maths.

Roedd y plant yn ysgrifennu straeon.

The children were writing stories.

Roedden ni'n dysgu Cymraeg.

We were learning Welsh.

Roeddech chi'n cael cinio ysgol.

You were having school dinner.

Roedden nhw'n mwynhau'r wers.

They were enjoying the lesson.



Mae hi'n amser cyfieithu!

It's time to translate!



1. I was late today.
2. They were happy.
3. He was reading a book.
4. You were playing a game. (ti)
5. The children were working hard.
6. We were walking in the park.
7. She was talking in the lesson.
8. Lili was eating lunch.



Atebion!



1. I was late today.
2. They were happy.
3. He was reading a book.
4. You were playing a game.
5. The children were working hard.
6. We were walking in the park.
7. She was talking in the lesson.
8. Lili was eating lunch.

1. Roeddwn i'n hwyr heddiw.
2. Roedden nhw'n hapus.
3. Roedd e'n darllen llyfr.
4. Roeddet ti'n chwarae gêm.
5. Roedd y plant yn gweithio'n galed.
6. Roedden ni'n cerdded yn y parc.
7. Roedd hi'n siarad yn y wers.
8. Roedd Lili yn bwyta cinio.



Y Negyddol

- *To form the negative, the 'R' is replaced with a 'D' and 'ddim' is added, e.e.*

Roeddwn i'n byw yn Aberystwyth.


I lived in Aberystwyth. / I used to live in Aberystwyth.

Doeddwn i ddim yn byw yn Aberystwyth.

I did not live in Aberystwyth. / I didn't used to live in Aberystwyth.



Y Negyddol



Doeddwn i ddim yn chwarae pêl-droed.

I wasn't playing football.

Doeddet ti ddim yn cerdded i'r ysgol.

You weren't walking to school.

Doedd e ddim yn gwisgo trowsus du.

He wasn't wearing black trousers.

Doedd hi ddim yn gwneud Mathemateg.

She wasn't doing Maths.

Doedd y plant ddim yn ysgrifennu.

The children weren't writing.

Doedden ni ddim yn dysgu Cymraeg.

We weren't learning Welsh.

Doeddech chi ddim yn cael cinio ysgol.

You weren't having school dinner.

Doedden nhw ddim yn mwynhau'r wers.

They weren't enjoying the lesson.



Cwestiynau

- *The 'r' is omitted in question forms, e.e.*

Oeddwn i?

Was I?

Oedd e?

Was he?

Oeddech chi?

Were you?



Cwestiynau

?	✓	X
Oeddwn i?	Oeddwn	Nac oeddwn
Oeddet ti?	Oeddet	Nac oeddet
Oedd e / hi?	Oedd	Nac oedd
Oedd y plant?	Oedd	Nac oedd
Oedden ni?	Oedden / Oeddech	Nac oedden / Nac oeddech
Oeddech chi?	Oeddwn / Oeddech	Nac oeddwn / Nac oeddech
Oedden nhw?	Oedden	Nac oedden



Ateb cwestiynau'n llawn


?	✓ X	y ferf	mwy o wybodaeth
Oeddet ti'n canu?	Oeddwn,	roeddwn i'n canu	yn y côr.
	Nac oeddwn,	doeddwn i ddim yn canu	

?	✓ X	y ferf	mwy o wybodaeth
Oedden nhw'n chwarae?	Oedden,	roedden nhw'n chwarae	tennis.
	Nac oedden,	doedden nhw ddim yn chwarae	



Pan oeddwn i'n blentyn...

When I was a child...




**Pan oeddwn i'n blentyn, roeddwn i'n hoffi nofio yn y pwll nofio.
canu yn yr eisteddfod.
chwarae tennis yn yr haf.
mwynhau tynnu llun.**

**doeddwn i ddim yn bwyta brocoli.
hoffi gwneud gwaith cartref.
gallu jyglo.**



Pan oeddwn i'n blentyn...

When I was a child...



Pan oeddwn i'n blentyn,	roeddwn i'n	hoffi / licio nofio yn y pwll nofio.
		canu yn yr eisteddfod.
		chwarae tennis yn yr haf.
		mwynhau tynnu llun.
	doeddwn i ddim yn	bwyta brocoli.
		hoffi / licio gwneud gwaith cartref.
		medru jyglo.



Y Gadair Goch!



Cyfarwyddiadau i'r tiwtor

- Yn eu tro, bydd rhaid i'r myfyrwyr eistedd yn y gadair goch.
- Bydd y myfyrwyr eraill yn gofyn cwestiynau i'r person yn y gadair goch am eu dyddiau yn yr ysgol.
- Rhaid i'r person yn y gadair goch ymateb gyda/efo brawddeg lawn, e.e.


Oeddet ti'n hoffi'r ysgol?

Oeddwn, roeddwn i'n hoffi'r ysgol.

Nac oeddwn, doeddwn i ddim yn hoffi'r ysgol.



Y Gadair Goch!



**Pan oeddet ti
yn yr ysgol,
oeddet ti'n...**

**Oeddwn,
roeddwn i'n...**

**Nac oeddwn,
doeddwn i ddim yn...**


e.e.

- ... hoffi chwarae hoci / pêl-rwyd / rygbi / rownderi?
- ... mwynhau Hanes / Celf / Gwyddoniaeth?
- ... cael cinio ysgol / brechdanau?
- ... gwisgo gwisg ysgol?



Siarad am berson arall

Darllenwch y sgysiau yn uchel gyda phartner i ymarfer ynganiad.



Sgwrs 1

Athro: Beth rydych chi'n wybod am Florence Nightingale, blant?

Tom: Roedd hi'n nyrs.

Athro: Oedd, roedd hi'n nyrs. Roedd hi'n dod o Florence.

Huw: Roedd hi'n nyrsio yn Rhyfel Crimea. Roedd Rhyfel Crimea rhwng 1853 ac 1856.

Alys: Roedd hi'n helpu'r dynion yn yr ysbyty. Roedd hi'n cario lamp.

Athro: Arbennig wir, blant!



Siarad am berson arall

Sgwrs 2

Athro: Atebwch y cwestiynau yma, blant. Oedd Florence Nightingale yn ddoctor?

Tom: Nac oedd. Roedd hi'n nyrs.

Athro: Cywir. Oedd hi'n dod o Ffrainc?

Huw: Nac oedd. Roedd hi'n dod o'r Eidal.

Athro: Cywir. Oedd hi'n nyrsio yn Rhyfel y Crimea?

Alys: Oedd.

Athro: Oedd Rhyfel Crimea rhwng 1853 ac 1857?

Sam: Nac oedd. Roedd Rhyfel Crimea rhwng 1853 ac 1856.





Betsi Cadwaladr



Cyfarwyddiadau i'r tiwtor

- Bydd y myfyrwyr yn dysgu am Betsi Cadwaladr – pwy oedd hi, o ble roedd hi'n dod, beth roedd hi'n wneud, ayyb.
- Bydd rhaid iddyn nhw ysgrifennu darn syml (gan ddefnyddio'r nodiadau ar y sleid nesaf) am Betsi, e.e. ar gyfer gwasanaeth ysgol.
- Bydd rhaid iddyn nhw ddefnyddio **roedd/doedd** gyda'r geiriau mewn print bras i wneud brawddegau llawn.




Betsi Cadwaladr



- **dod** o'r Bala
- **siarad** Cymraeg
- **gweithio** fel morwyn (*maid*) yn Lerpwl (*Liverpool*)
- **dysgu** Saesneg yn Lerpwl
- **hoffi** teithio (*to travel*)
- 1835 – **dysgu** sut i fod yn nyrs yn ysbyty Guy Llundain
- 1854 – **gweithio** fel nyrs yn Rhyfel Crimea - ond doedd Florence Nightingale ddim yn hapus iddi hi weithio fel nyrs, felly roedd hi'n trwsio (*to mend*) dillad a glanhau (*to clean*)
- Symudodd hi i Balaclava a **gweithio** fel nyrs yno



Siarad am bobl eraill



Y tro hwn, darllenwch y sgwrs, wedyn atebwch y cwestiynau ar y sleid nesaf. (yn llawn)

Athro: Beth rydych chi'n wybod am y Tuduriaid, blant?

Eleri: Roedden nhw'n byw rhwng 1485 ac 1603.

Athro: Da iawn, Eleri.

Haf: Roedden nhw'n bwyta cig.

Cai: Doedden nhw ddim yn yfed llawer o ddŵr.

Athro: Pam?

Cai: Achos roedd y dŵr yn frwnt!

Athro: Gwaith gwych, blant!



Siarad am bobl eraill



1. Oedd y Tuduriaid yn byw rhwng 1585 ac 1703?
2. Oedden nhw'n bwyta cig?
3. Oedden nhw'n yfed llawer o ddŵr? Pam?



Atebion!



1. Oedd y Tuduriaid yn byw rhwng 1585 ac 1703?

Nac oedd. Roedd y Tuduriaid yn byw rhwng 1485 ac 1603.


Nac oedd. Roedden nhw'n byw rhwng 1485 ac 1603.

2. Oedden nhw'n bwyta cig?

Oedden, roedden nhw'n bwyta cig.

3. Oedden nhw'n yfed llawer o ddŵr? Pam?

**Nac oedden, doedden nhw ddim yn yfed
llawer o ddŵr, achos roedd y dŵr yn frwnt.**



Gêm - Pwy oeddwn i?!



Roeddwn i'n byw yn Lloegr.

**Roeddwn i'n hoffi bwyta cig,
priodi a lladd llawer o bobl!**

**Doeddwn i ddim yn hoffi
Pabyddion!**

**Roedd gwallt coch gyda fi.
Roedd coron aur gyda fi.
Roedd bola mawr, mawr gyda fi!**

**Roeddwn i'n enwog am fod yn
frenin.**



Harri'r Wythfed oeddwn i!

Roeddwn i'n byw yn Lloegr.

Roedd gwallt coch gyda fi.
Roedd coron aur gyda fi.
Roedd bola mawr, mawr gyda fi!


Roeddwn i'n hoffi bwyta cig, priodi a
lladd llawer o bobl!

Doeddwn i ddim yn hoffi Pabyddion!

Roeddwn i'n enwog am fod yn frenin.



Gêm - Pwy oeddwn i?



Roeddwn i'n byw yn

Roedd gyda fi.

Roeddwn i'n hoffi

Doeddwn i ddim yn hoffi

Roeddwn i'n enwog am

- Meddyliwch am berson mewn hanes (*someone from history*)
- Ymchwiliwch (*Research*) wybodaeth am y person ar eich ffôn.
- Disgrifiwch y person gan ddefnyddio'r patrymau amherffaith.
- Rhaid i'r grŵp ddyfalu (*guess*) pwy ydy'r person!



Yr Amser Amherffaith

Cadarnhaol +

Roeddwn i

Roeddet ti

Roedd e

Roedd hi

Roedd Tom

Roedden ni

Roeddech chi

Roedden nhw

Cwestiwn ?

Oeddwn i?

Oeddet ti?

Oedd e?

Oedd hi?

Oedd Tom?

Oedden ni?

Oeddech chi?

Oedden nhw?

Negyddol -

Doeddwn i ddim

Doeddet ti ddim

Doedd e ddim

Doedd hi ddim



Doedd Tom ddim

Doedden ni ddim

Doeddech chi ddim

Doedden nhw ddim





Tasg i'r Portffolio

Tasg Darllen 1: Sylfaen A2

(o'r Pecyn Cymorth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

Tystiolaeth 2 & 3


Darllen erthygl sy'n trafod tripiâu ysgol ac ateb
cwestiynau / Darllen adroddiad yn uchel a
recordio'r darlleniad

*Read an article that discusses school trips and
answer questions / Read a report aloud and
record the reading*



Munud i feddwl ...


Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?
Which language acquisition techniques were used in this lecture?



Drilio



Ymarfer ar lafar
(yn unigol)



Gwaith pâr



Tasg
wrando




Tasg
ysgrifennu



Tasg ddarllen



Grŵp o dri



Da iawn chi!



Daliwch ati!